# Canllawiau i'r Ddeddf Teithio Llesol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

## Cyflwyniadau i ategu'r ymgynghoriad ar y canllawiau diwygiedig

**Ebrill 2020**

# Tair adran:

- Trosolwg – Natalie Grohmann
- Newidiadau i'r canllawiau cyflwyno – Chris Roberts
- Newidiadau i'r canllawiau cynllunio a dylunio – Adrian Lord

# Y canllawiau diwygiedig drafft-

# Pam, sut a beth nesaf?

Natalie Grohmann, Pennaeth Teithio Llesol a Diogelwch ar y Ffyrdd, Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Sut y gwnaethom gyrraedd y pwynt hwn?

- Roedd Rhaglen Lywodraethu 2011 yn cynnwys “y Bil Priffyrdd a Thrafnidiaeth (Llwybrau Beicio)”
- Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013; daeth i rym ym mis Medi 2014
- Cyhoeddwyd Canllawiau Statudol ym mis Hydref 2014



## Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

2013 dccc 7

CYNNWYS

*Cyflwyniad*

1 Trosolwg
2 Ystyr "llwybr teithio llesol" a "cyfleusterau cysylltiedig" etc.

*Mapiau*

3 Mapiau llwybrau presennol
4 Mapiau rhwydwaith integredig
5 Cyhoeddi etc. mapiau
6 Datblygu polisïau trafnidiaeth gan roi sylw i fap rhwydwaith integredig

*Darpariaethau eraill*

7 Sicrhau gwelliant parhaus i lwybrau teithio llesol
8 Adroddiadau gan Weinidogion Cymru ar deithio llesol
9 Darparu ar gyfer cerddwyr a beicwyr wrth arfer swyddogaethau penodol
10 Dyletswydd i arfer swyddogaethau i hyrwyddo teithio llesol


*Atodol*

11 Adolygu gweithrediad y Ddeddf
12 Cyfarwyddiadau a chanllawiau
13 Dehongli
14 Cychwyn
15 Enw byr

## Sut y gwnaethom gyrraedd y pwynt hwn?

- Cyflwynwyd y Mapiau Llwybrau Presennol cyntaf ym mis Ionawr 2016
- Map Rhwydwaith Integredig peilot, gweithdai a bwletinau drwy gydol 2016 /17
- Cyflwynwyd y Mapiau Rhwydwaith Integredig cyntaf ym mis Tachwedd 2017
- Cymeradwywyd y set lawn o Fapiau Rhwydwaith Integredig yn Hydref 2018
- Cronfa Teithio Llesol ers Haf 2018

# Canllawiau diwygiedig drafft



# Wedi'i diweddaru ond heb fod yn berffaith eto – ble mae angen rhagor o waith

- Mae sawl gwall teipograffigol yn y ddogfen (cyfeiriadau diffygiol, lluniau aneglur, cynnwys â hyperddolenni llawn ac ati)
- Mae angen canllaw ategol cryno
- Mae angen gwella'r dyluniad er mwyn sicrhau bod y ddogfen mor hygyrch â phosibl
- Mae angen ei rhannu'n adrannau er mwyn gallu eu lawrlwytho'n unigol

- **Rhowch wybod beth arall – a'r elfennau cadarnhaol hefyd!**

# Beth nesaf?

- Canslwyd tri digwyddiad ymgynghori rhanbarthol ym mis Mawrth oherwydd y Coronafeirws
- Cynhelir cyflwyniadau ar-lein a sesiwn holi ac ateb byw ar zoom yn lle’r digwyddiadau hyn
- Sesiynau holi ac ateb ar zoom; **21 Mai a 27 Mai** 14:00 – 16:00, cofrestrwch drwy e-bostio **activetravel@gov.wales**
- Estynnnwyd y cyfnod ymgynghori – **daw i ben bellach ar 19 Mehefin**
- Cyhoeddir fersiwn derfynol o’r canllawiau ddiwedd yr haf

# Beth arall sydd ar y gweill?

- Hyfforddiant i staff technegol – Gaeaf 2020
  - Hyfforddiant penodol ar elfennau dylunio technegol wedi'i gyflwyno gan arbenigwyr diwydiant
- Gwell system mapio GIS ar gyfer teithio llesol
  - Gohiriwyd y gwaith ar system fapio oherwydd problemau â Map Data Cymru, ond mae'r gwaith bellach yn mynd rhagddo ar ffurf garlam
- Mae pecyn cymorth er mwyn helpu awdurdodau lleol i ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd wrthi'n cael ei gaffael a bydd ar gael ddiwedd haf 2020

# Estynnwyd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r Mapiau Rhwydwaith Integredig/Mapiau Llwybrau Presennol nesaf i **30 Medi 2021**

Ysgrifennwyd at arweinwyr Awdurdodau Lleol i'w hysbysu am hyn, ac i nodi pa wybodaeth y dylid ei chyflwyno yr hydref hwn cyn cyflwyno'r Mapiau Rhwydwaith Integredig

# Dylid bwrw ati â'r gwaith o baratoi Mapiau Rhwydwaith Integredig nawr

Ein cyngor yw y dylid dechrau gweithio er mwyn paratoi'r Mapiau Rhwydwaith Integredig / Mapiau Llwybr Presennol nad yw'r elfennau o'r Canllawiau sydd heb eu cwblhau eto yn effeithio arnynt – gofynnwch os bydd unrhyw amheuaeth


# Dylid bwrw ati â'r gwaith o baratoi Mapiau Rhwydwaith Integredig nawr

Creu cysylltiadau o fewn yr awdurdod lleol a chyda phartneriaid – y tu hwnt i drafnidiaeth, fel:

- Addysg – ysgolion y 21ain ganrif a thrafnidiaeth ysgolion
- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus / Iechyd Cyhoeddus Cymru – Siarter Teithio Iach i gyflogwyr
- Adrannau Cynllunio/ Comisiwn Dylunio – Creu Lleoedd
- Adfywio
- Tai





## Siarter teithio'n iach i staff

Ymrwymiadau'r sector cyhoeddus yng Nghaerdydd 2019-22

Teithio Llesol Caerdydd

**Drwy gydweithio ar gyfer ein sefydliadau yng Nghaerdydd, rydym yn ymrwymedig i ....**

| |
|---|
| **Trafnidiaeth gyhoeddus** |
| Cynnig gostyngiadau ar drafnidiaeth gyhoeddus i staff yn ein sefydliadau, gan gynnwys Bws Caerdydd, Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru, ac ymchwilio i ostyngiadau gan weithredwyr eraill |
| **Cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus** |
| Cyfrannu at y map rhyngweithiol sy'n dangos yr holl seilwaith cerdded, beicio a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer ein prif safleoedd yng Nghaerdydd |
| **Beicio** |
| Cynnig y cynllun beicio i'r gwaith i bob aelod o staff |
| Darparu man diogel i gadw beic a darparu cawodydd ym mhob prif safle |
| Gwella mynediad i feiciau yn y gwaith, e.e. beiciau'r gweithle a 'Nextbike' |
| Hwyluso a hyrwyddo hyfforddiant beicio a sesiynau cynnal a chadw beiciau am ddim |
| Ar y cyd, adolygu ein polisi treuliau teithio, er mwyn annog pobl i ddewis beicio |
| **Cyfathrebu ac arweinyddiaeth** |
| Sefydlu rhwydwaith o hyrwyddwyr teithio cynaliadwy ar draws ein sefydliadau |
| Cytuno ar negeseuon i gyfathrebu teithio'n iach â'r cyhoedd, ymwelwyr a staff a'u defnyddio'n gyson |
| Hyrwyddo ac ystyried opsiynau a manteision teithio'n iach wrth hysbysebu swyddi yn ein sefydliadau |
| Dylai uwch aelodau o staff a rheolwyr hyrwyddo a defnyddio dulliau teithio llesol a chynaliadwy yn rheolaidd |
| **Gweithio'n hyblyg** |
| Cynyddu'r posibilrwydd o gynnal cyfarfodydd drwy gyfrwng cynhadledd dros y ffôn neu fideo pan fo'n briodol |
| **Cerbydau ag allyriadau isel iawn** |
| Adolygu'r angen i gael seilwaith sy'n gwefru cerbydau trydan (EV) yn ein safleoedd nawr ac yn y dyfodol |
| Adolygu ein trefniadau fflyd a chaffael (pan fo'n berthnasol) er mwyn cyflwyno cerbydau ag allyriadau isel iawn |

**Gyda'n gilydd, byddwn yn...**

| |
|---|
| **Lleihau** cyfran y teithiau cymudo yn ôl ac ymlaen i'r gwaith mewn car o 62% i 52% |
| **Cynyddu** cyfran y staff sy'n beicio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith, neu yn y gwaith, yn wythnosol o 14% i 23% |
| **Cynyddu** cyfran y cerbydau a ddefnyddir yn ystod y dydd sy'n gar trydan hybrid neu'n gar trydan o 1% i 3% |

**Pwy ydym ni...**

HM Revenue & Customs

HM Prison & Probation Service

...gyda'n gilydd rydym yn cyflogi dros 33,000 o staff yn y sector cyhoeddus yng Nghaerdydd

## Adolygu Canllawiau Cyflawni'r Ddeddf Teithio Llesol

# Yr heriau a'r newidiadau

Chris Roberts

# Yr Adolygiad

- Grwpiau Ffocws
  - Pedwar grŵp ardal
  - Un grŵp hygyrchedd
  - 69 o gyfranogwyr – gan gynnwys pob awdurdod lleol
- Cyfarfod Adolygu Cymru Gyfan

# Her 1 - Cymhlethdod

- Dwy set o ganllawiau
  - Canllawiau Cyflenwi
  - Canllawiau Dylunio
- Dwy set o fapiau
  - Mapiau Llwybrau Presennol
  - Map Rhwydwaith Integredig

# Cymhlethdod – y newidiadau

- Un set o ganllawiau – mewn dwy ran
  - Rhan 1: Canllawiau Cyflenwi
  - Rhan 2: Canllawiau Cynllunio a Dylunio
- Un map – Map Rhwydwaith Teithio Llesol
  - Llwybrau Presennol
  - Llwybrau ar gyfer y Dyfodol

# Her 2 – Ymdeimlad o bwrpas
# Llawer o brosesau – llai o ganlyniadau

- Prin iawn yw'r llwybrau cyflawn y gellid eu defnyddio gan deithwyr llesol newydd sydd wedi'u cynnwys ar y mapiau
- Dim cynnydd mewn teithio llesol yng Nghymru
- Prin iawn yw'r gwaith hyrwyddo a wneir o ran teithio llesol
- Dim llawer o ffocws ar newid modd

# Ymdeimlad o bwrpas – y newidiadau

- Ffocws cliriach ar deithwyr llesol newydd
  - Teithiau cyfan
  - Rhwydwaith Sylfaenol
  - Hyrwyddo
- Ysgolion
- Ardaloedd Dynodedig

# Her 3 – Uchelgais

- Er mwyn gweithio, rhaid i’r mapiau fod yn uchelgeisiol.
- Ond ystyriwyd ei bod yn anodd codi disgwyliadau.
- Nid oedd y rhan fwyaf o’r Mapiau Rhwydwaith Integredig yn mapio rhwydwaith integredig.

# Uchelgais – y newidiadau

- Bydd yn rhaid i Fapiau Rhwydwaith Teithio Llesol gynnwys rhwydwaith o lwybrau sy'n bodoli ar hyn o bryd a llwybrau ar gyfer y dyfodol â dwysedd rhwyll heb fod yn fwy na 250 metr erbyn trydydd rownd cyflwyno'r mapiau
- Llinellau Dewisol: Nodwyd gofyniad sylfaenol ar gyfer llinell ddewisol bellach fel rhan o'r Canllawiau Cynllunio a Dylunio
- Mae blaenoriaethu bellach yn rhan amlwg o'r broses gyfan

# Her 4 – Statws


- Nid ystyrir yn gyffredinol bod teithio llesol yn bwysig
- Mae rhannau allweddol o’r Ddeddf yn cael eu hanwybyddu

# Statws – y newidiadau


- Y gydberthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Deddf yr Amgylchedd ac ati

- Polisi Cynllunio Cymru

# Yr Hierarchaeth Drafnidiaeth Gynaliadwy



# Yr Hierarchaeth Drafnidiaeth Gynaliadwy ym maes Cynllunio



# Statws – y newidiadau

- Y gydberthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Deddf yr Amgylchedd ac ati

- Gwella Polisi Cynllunio Cymru
- **Darpariaeth i deithwyr llesol wrth wneud newidiadau i briffyrdd**

# Adeiladu a chynnal a chadw’r priffyrdd

- Dylai prosiectau priffyrdd yng Nghymru geisio gwella’r ddarpariaeth oni ellir dangos rheswm da dros beidio â gwneud hynny

- Bydd angen llwybr archwilio
- Dylid ystyried y broses yn ystod y cam dylunio cynharaf

- “Mae’n bwysig na fydd prosiectau priffyrdd yng Nghymru yn gwneud cerdded a beicio yn llai cyfleus neu ddiogel.”

# Gwaith Stryd



# Gwaith Stryd

- **Rhaid i awdurdodau lleol ystyried yr effeithiau y gall gwaith stryd eu cael ar gerddwyr a beicwyr.**
- **Lle bynnag y bo'n bosibl, dylid rhoi blaenoriaeth i sicrhau mynediad i gerddwyr a beicwyr yn ystod gwaith stryd.**
- **Canllawiau manwl newydd ar waith stryd yn y Canllawiau Cynllunio a Dylunio**.

# Gwaith Stryd






# Gwaith Stryd

- Rhaid i awdurdodau lleol ystyried yr effeithiau y gall gwaith stryd eu cael ar gerddwyr a beicwyr
- Lle bynnag y bo'n bosibl, dylid rhoi blaenoriaeth i sicrhau mynediad i gerddwyr a beicwyr yn ystod gwaith stryd
- Canllawiau manwl newydd ar waith stryd yn y Canllawiau Cynllunio a Dylunio
- **Y Llyfr Coch ('The Red Book')?**

# Her 5 - Cyni

- Adnoddau cyfyngedig iawn sydd ar gael (yn enwedig personél)
- Diwylliant o “wneud yr hyn sy’n rhaid yn unig”

# Cyni – y newidiadau

- **Rhannu'r Baich – Cyfeiriadur swyddogaethau**
- **Mwy o gyfarwyddyd (rhaid gwneud) e.e. defnyddio adnodd archwilio**
- **Darpariaethau cliriach ar gyfer adrodd e.e. ymgynghori**

# Newidiadau eraill (1)

- **Adolygiad Rhannol:** Mae'r ddarpariaeth yn y Ddeddf y gall awdurdodau lleol adolygu eu mapiau ar unrhyw adeg bellach wedi'i chwmpasu gan broses ffurfiol yn y canllawiau, gan gynnwys darpariaeth benodol ar gyfer adolygiadau sy'n ymdrin â rhan o ardal awdurdod yn unig.

- **Datganiadau ar gyfer llwybrau presennol:** Mae'r canllawiau bellach yn cynnwys gwybodaeth fanylach am baratoi datganiadau ac ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i roi cyngor pellach ar ddilysrwydd datganiadau.

- **Addasrwydd o ran Oedran:** Rhaid i'r rhwydwaith fod yn addas i blant ei ddefnyddio'n annibynnol pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol uwchradd.

# Newidiadau eraill (2)

- **Gwledigrwydd:** Cydnabyddir bellach y gall fod angen dulliau gweithredu gwahanol mewn ardaloedd gwledig a gwneir rhai awgrymiadau o ran sut i ymateb i'r heriau penodol.

- **Ymrwymiad i ddarparu hyfforddiant:** Ceir ymrwymiad penodol i ddarparu hyfforddiant i'r rheini sy'n ymwneud â pharatoi, adolygu a chyflwyno'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol o leiaf unwaith yn ystod pob cylch cyflwyno mapiau.

# Teithio Llesol: Diweddariadau i'r Canllawiau Cynllunio a Dylunio

Adrian Lord – Phil Jones Associates

# Canllawiau Dylunio – I’ch atgoffa

- Beth a ddywedoch

  - Symleiddio’r testun â mwy o enghreifftiau a darluniau
  - Mwy o hyblygrwydd lle na ellid cyrraedd y safonau
  - Symleiddio’r canllawiau ar gyfer y broses o gynllunio’r rhwydwaith
  - Peidio â gorgymhlethu’r broses ar gyfer archwilio ac adolygu’r ddarpariaeth i feicwyr/cerddwyr

- Beth a wnaethom

  - Ychwanegu mwy o luniau a mwy o enghreifftiau o’r arferion gorau (rhai lleol lle y bu’n bosibl)
  - Gallu cynnwys lledau llai lle roedd cyfiawnhad dros wneud hynny h.y. cyfyngiadau ffisegol, llifoedd isel
  - Cynnwys siartiau llif proses fel rhan o’r prif ganllawiau
  - Cadwyd system syml yn dilyn trafodaeth yn y gweithdai

# Proses

- Cydnabod y canlynol:

**‘Perfection should not be the enemy of the good’**

- Uchelgais clir i weithio tuag at ddwysedd rhwydwaith o 250m (gan gydnabod topograffi a chyfyngiadau eraill)
    - Mae hyn yn unol ag argymhellion gwaith ymchwil o’r Iseldiroedd

# Gwelliannau Cynllunio i Gerddwyr

- Cysylltu atyniadau, nodi rhwystrau, nodi pwyntiau mynediad (llwybrau tynffed)



- Cynyddu’r defnydd o ddata i lywio penderfyniadau



- Mae Creu Lleoedd yn elfen bwysig

# Proses Gynllunio'r Rhwydwaith Cerdded

Cam 1 – Deall patrymau a rhwystrau teithio

Cam 2A – Nodi a mapio atyniadau

Cam 2B – Nodi a mapio llwybrau tynffed

Cam 2C – Cynnwys dosbarthiad cynnal a chadw troetffyrdd


Cam 2D – Coladu a thrososod gwybodaeth mewn GIS

Cam 2E – Ychwanegu unrhyw lwybrau newydd i gerddwyr

Cam 3 – Archwilio'r Llwybrau/Ardaloedd Allweddol

# Beth yw'r rhwydwaith sylfaenol?

- Lonydd a thraciau beicio
- Cymdogaethau traffig isel a chyflymder isel
- Athreiddedd wedi'i hidlo
- Lonydd glas a pharciau
- Lonydd tawel




# Proses Gynllunio'r Rhwydwaith Beicio


Dim newid ers y dull gweithredu blaenorol ond caiff diagram proses ei gynnwys bellach yn y brif ddogfen

- Cam 1 – Nodau a gofynion (pa deithiau/ardal rydych yn eu targedu/ei thargedu)
- Cam 2 – Casglu gwybodaeth (PCT, rhanddeiliaid, unigolion a gaiff eu hanafu, rhwystrau)
- Cam 3 – Mapio (tarddiadau, cyrchfannau, llinellau dewisol a llwybrau)
- Cam 4 – Asesu/dethol llwybrau

# Adnodd ‘Propensity to Cycle’

- Datblygwyd gan CEDAR (Caergrawnt) / ITS (Leeds) a Phrifysgol Westminster
- Gall helpu i ddiffinio coridorau llwybrau
- Gall helpu i nodi defnydd posibl mewn senarios yn y dyfodol
- Rhowch gynnig arno yn [http://pct.bike/](http://pct.bike/)



# Proses Cynllunio Rhwydwaith Syml – CBS Pen-y-bont ar Ogwr




- Paratoi ar gyfer y Map Teithio Llesol â rhanddeiliaid
- Data o waith datblygu Mapiau Llwybrau Presennol a Mapiau Rhwydwaith Integredig blaenorol
- Sesiynau Mapiau Rhwydwaith Integredig penodol
- Nodwyd y data canlynol:
  - Tarddbwyntiau
  - Pwyntiau cyrchfan
  - Llwybrau a ddefnyddir ar hyn o bryd
  - Llwybrau dymunol
  - Materion

# Cynllunio’r Rhwydwaith Teithio Llesol


- Nodau ac amcanion y Rhwydwaith
  - Gwell mynediad i wasanaethau a chyfleusterau allweddol, gan gynnwys canol trefi, safleoedd cyflogaeth, ardaloedd manwerthu a hybiau trafnidiaeth;
  - Gwell mynediad i gyfleusterau addysg fel ysgolion a cholegau;
  - Gwelliannau i’r rhwydwaith beicio strategol presennol yn y fwrdeistref sirol, a chynlluniau i’w ehangu.

Mapiwch Brif Sbardunau ac Atyniadau’r Daith




# Cynllunio'r Rhwydwaith Teithio Llesol

Mapio Llwybrau Teithio Llesol Presennol





Ychwanegu cyrchfannau lleol eraill (o ddata ac adborth gan randdeiliaid)




# Mapio'r llinellau dewisol rhwng parthau atyniadau (Cerdded)

Trefnwyd y cyrchfannau'n glwsteri





Ychwanegwyd llinellau dewisol a materion i gerddwyr




# Mapio’r Llinellau Dewisol rhwng parthau atyniadau (Beicio)

Llinellau Dewisol Beicio




Llinellau dewisol wedi’u cyfateb i’r rhwydwaith priffyrdd



# Canllawiau Blaenoriaethu

Gallai'r ffactorau i'w hystyried wrth flaenoriaethu gwelliannau gynnwys y canlynol:

- Lefelau symudiadau cerdded/beicio cyfredol a phosibl
- Pwysigrwydd y llwybr i grwpiau penodol o ddefnyddwyr
- Perfformiad yn erbyn amcanion polisi trafnidiaeth
- Dichonoldeb / gallu i gyflawni'r cynllun
- I ba raddau y mae'r seilwaith presennol yn ddiffygiol
- Costau gweithredu
- Y potensial i ddenu cyllid (sector preifat)
- Integreiddio â moddau trafnidiaeth eraill

# Ymgynghori ac Ymgysylltu

Y cyswllt rhwng ymgysylltu ar fapiau a chynlluniau

**Ymgysylltu ar Fapiau Rhwydwaith Teithio Llesol**

- Dull dau gam
- Ymgysylltu'n gynnar
- Ymgysylltu er mwyn Dilysu

**Y Disgwyliadau Sylfaenol o ran pwy y dylid ymgysylltu â nhw**

- Partneriaid cyflenwi
- Y cyhoedd
- Pobl â nodweddion gwarchodedig
- Plant a phobl ifanc

# Ymgynghori ac Ymgysylltu

**Ymgysylltu am Gynlluniau Penodol**

- Pwyslais ar gydgynhyrchu
- Dull dau gam
- Yn briodol i faint y cynllun
- Cymorth ymgysylltu cynnar i WelTAG
- Ymgysylltu yn ystod y cam cysyniadol neu wrth ddylunio amlinelliad o opsiwn unigol

**Y Disgwyliadau Sylfaenol o ran pwy y dylid ymgysylltu â nhw**

- Aelodau Lleol
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Trigolion lleol
- Rhanddeiliaid yr effeithir arnynt gan y cynllun

# Monitro a Gwerthuso

**Fersiwn 2014**

- Pam monitro a gwerthuso?
- Sut i fynd ati i gasglu data
- Adnoddau casglu data
- Dadansoddi’r data
- Allbwn

**Fersiwn 2020**

- Pam monitro a gwerthuso?
- Sut i fynd ati i gasglu data
- Adnoddau casglu data
- **Y dull a argymhellir**
- Dadansoddi’r data
- Allbwn

# Canllawiau Dylunio

- Mae pethau a oedd yn newydd/arbrofol bellach wedi ymsefydlu’n gadarn
- Mae TSRGD wedi cyfreithloni rhai pethau e.e. beicio cyfochrog/sebra
- Mwy o wybodaeth/hyder technegol o enghreifftiau a adeiladwyd yn ddiweddar
- Mwy o wybodaeth am yr hyn sy’n dderbyniol i ddefnyddwyr

# Egwyddorion Dylunio

- Datblygu syniadau ar y cyd ac mewn partneriaeth â chymunedau
- Hwyluso cerdded, beicio a dulliau teithio eraill sy’n defnyddio olwynion yn annibynnol i bawb, gan gynnwys plentyn oed ysgol uwchradd ar ei ben ei hun neu feiciwr llai profiadol
- Dylunio mannau sy’n darparu mwynhad, cysur a diogelwch
- Sicrhau mynediad i bawb a chyfle cyfartal mewn mannau cyhoeddus
- Sicrhau y caiff pob cynnig ei ddatblygu mewn ffordd sy’n ystyried y cyd-destun penodol ac sydd wedi’i arwain gan dystiolaeth

# Egwyddorion Dylunio

- Cadw pobl sy’n cerdded, beicio a defnyddio dulliau teithio eraill sy’n defnyddio olwynion ar wahân i gerbydau modur preifat neu roi blaenoriaeth iddynt drwy ystyried y canlynol wrth ddylunio cynlluniau:



  - Cadw cerddwyr ar wahân i feicwyr a thraffig modur drwy ddarparu traciau beicio a throetffyrdd gwahanedig oddi ar y gerbytffordd;




  - Cadw cerddwyr a beicwyr ar wahân i draffig modur drwy ddarparu lonydd glas a seilwaith oddi ar y gerbytffordd a rennir (y tu allan i ganol trefi prysur)





  - Gwella amodau ar y ffordd (lleihau cyflymder/cyfaint traffig) er mwyn galluogi pobl i ddefnyddio beiciau ar briffordd bresennol


# Dylunio Cynhwysol – geometreg a threfn












# Hanfodion Dylunio – pryd i gadw ar wahân

- Diagram cyflymder/llif o bryd i rannu cerbytffordd neu fynd oddi ar y gerbytffordd
- **Newydd!** Oren – annerbyniol/anhygyrch i rai defnyddwyr



# Syniadau Newydd – Ffyrdd Ymyl









# Cymdogaethau Traffig Isel











# Technegau Creu Lleoedd syml

- Mewnosod baeau llwytho i'r droetffordd




- Troedffyrdd cyfunol



# Newidiadau TSRGD 2016

Diweddarwyd pob cynllun ar gyfer cyffyrdd a chroesfannau yn y canllawiau i adlewyrchu TSRGD 2016 (ceir rhagor o fanylion am ddewis dyluniad, amseru signalau ac ati ym Mhennod 6 y Llawlyfr Arwyddion Traffig newydd)




Mae TSRGD bellach yn galluogi rhai triniaethau 'arloesol' sy'n defnyddio arwyddion a marciau safonol

Gall cynlluniau i fabwysiadu terfynau cyflymder o 20mya yn helaeth ledled Cymru hefyd hwyluso gwrthlif beicio symlach gan ddefnyddio plât 'Ac Eithrio Beiciau' yn unig islaw arwydd Dim Mynediad

Arwyddion newydd yn caniatáu mynediad i feiciau i Ardaloedd Cyfyngu Cerbydau

# Lonydd osgoi safleoedd bysiau – addasu'r dyluniad

**Addaswyd y dyluniad yn dilyn arbrofion ac adborth gan grwpiau anabledd**

**Problem:** Bydd yn rhaid i feicwyr ar lôn neu drac o bosibl symud allan i lôn traffig fyw er mwyn pasio bws, gan eu rhoi mewn perygl.

**Ateb:** Gosod y trac beiciau rhwng y safle bysiau a'r droetffordd.



**Problem:** Bellach mae'n rhaid i gerddwyr groesi'r trac beiciau.

**Ateb a Argymhellir:** Croesfan sebra ar draws y trac beiciau ar dwmpath uchel gwastad sy'n addas i bobl ddall a chydymffurfiaeth dda gan feicwyr

# Croesfan Sebra Fach dros Drac Beiciau

- Mae TSRGD yn cynnwys croesfan sebra dros drac beiciau
- Mae Goleuadau Croesi yn ddewisol
- Nid oes angen marciau igam-ogam





**Manteision:** Yn addas ar gyfer pobl ddall a rhannol ddall (siâp L cyffyrddadwy)

Cydymffurfiaeth dda gan feicwyr

'Sebra rhithwir' gan ddefnyddio dyluniad y stryd – yn iawn o bosibl mewn lleoliadau tawelach

# Croesfannau Beicio-Sebra Cyfochrog





# Cyffyrdd â Signalau

- Mae darparu Traciau Beicio yn arwain at gymhlethdodau ychwanegol:

    - Mae beicwyr bob amser yn agos at draffig arall
    - Oedi ychwanegol posibl i draffig modur, cerddwyr a beiciau er mwyn cadw symudiadau croes ar wahân
    - Beicwyr yn troi i'r dde mewn dau gam
    - Gofod ar gyfer pob modd a chyfarpar signalau ychwanegol
    - Ar ryw adeg, mae angen i gerddwyr groesi traciau beiciau – angen dewis y math o groesfan neu gyflwyno defnydd a rennir.

- Gall y gwahaniaeth o ran amser croesi i gerddwyr a beicwyr leihau'r angen am groesfannau croesgam i feicwyr a'u cadw ar wahân i gerddwyr

# Llinellau Stopio Blaen

- Caniateir cronfa Llinellau Stopio Blaen 7.5m



- Gellir defnyddio Llinellau Stopio Blaen ar y cyd â signal rhyddhau cynnar er mwyn i feicwyr allu dechrau symud yn gynharach a lleihau achosion o wrthdaro â thraffig sy’n troi i’r chwith



- Gallai’r signal ‘gwyrdd blaen’ fod ar ffurf ‘hidlydd’ safonol â symbol beic neu signal beic lefel isel

## Croesfannau Croesgornel

Gallant fod ar gyfer beiciau yn unig (ar y chwith) neu wedi'u rhannu (ar y dde) gan ddibynnu ar amseroedd croesi a'r capasiti gofynnol





# Croesfannau cyfochrog â signalau

- Gall beiciau groesi mewn un cam ond mae'n bosibl y bydd angen i gerddwyr stopio yn y canol







# Troi i'r Dde mewn Dau Gam (Dal y Chwith)

- Caiff traffig modur sy'n troi i'r chwith ei ddal wrth i feiciau symud am ymlaen
- Bydd beiciau sydd am droi i'r dde yn aros ar y chwith ac wedyn yn dechrau symud cyn y traffig ar yr ochr gyferbyn

**Problemau:** Mae angen lle ar gyfer pennau signalau ac ardaloedd troi




# Cyffordd ‘Warchodedig’ - Arbrofol


- Gellir ei defnyddio ar ffurf ‘coch-i-gyd’ i draffig modur er mwyn i gerddwyr a beicwyr fod ar ffurf ‘gwyrdd-i-gyd’

**Mantais:** Camau gwarchod gyda chyn lleied o oedi â phosibl a chyn lleied o gymysgu â cherddwyr

**Problemau:**

- Gwrthdaro posibl rhwng cerddwyr/beicwyr wrth osod croesfan sebra dros drac beiciau (galluogwyd yn TSRGD)
- Addasrwydd – defnyddio signal a chroesfan sebra i bobl ddall a rhannol ddall?
- Mae cyffordd ‘Seiclops’ TfGM (llun mewnol) yn gosod trac beiciau ar y tu allan a chroesfannau i gerddwyr ar y tu mewn – sy’n well o bosibl, gan greu bwlch rhwng croesfannau ar gyfer y gerbytffordd a’r trac beiciau a llai o achosion o groesi’r trac beiciau




# Cylchfan sy'n rhoi Blaenoriaeth i Drac Beiciau – Arbrofol

- Yn seiliedig ar ddyluniad o'r Iseldiroedd
- Wedi'i galluogi gan groesfan gyfochrog i feicwyr/cerddwyr yn TSRGD
- Cynlluniwyd ar gyfer Caergrawnt, Waltham Forest a Manceinion





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Hoffem gael adborth  gennych!

**Cyflwynwch eich ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad: lawrlwythwch o https://llyw.cymru/canllawiau-teithio-llesol**